

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 27ain Ebrill 2015 yn Ystafell Gwynant, Plas y Brenin, Capel Curig

Presennol: Richard (RR) – Cadeirydd, Iolo (IPR), Eryl (EO), Gareth (GR), Sian Shakespear (SS), Myfyr (MT), Elen (EH), Eirwen (EW)

Ymddiheuriadau: Sian Williams, Mark, Dewi , Iolo (ap Gwyn), Gwyn

1.	<p><u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain Ionawr 2015 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Mynyddoedd Pawb</u></p> <p>Adroddwyd gan EO y bydd cynrychiolaeth o Mynyddoedd Pawb yn cwrdd â Phwyllgor Deiseb y Cynulliad lle bydd cyfle iddynt roi cefndir yr ymgyrch a hefyd codi ymwybyddiaeth ar y pwnc yn y Cynulliad.</p>
2	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2015</u></p> <p>Cytunwyd ar y trefniadau canlynol ar gyfer cynnal Cyfarfod Blynyddol y Clwb eleni:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I'w gynnal ar nos Sadwrn 7fed Tachwedd • IPR i drefnu lleoliad yn ardal Capel Curig/Betws y Coed • Gofyn i Arwel Meical os y byddai yn barod i fod yn ŵr gwadd yn y cyfarfod gyda Dei Tomos a Berwyn Jones wrth gefn.
3	<p><u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2015 - DARLITH</u></p> <p>Adroddwyd gan SS bod Pabell y Cymdeithasau wedi ei llogi ar gyfer dydd Mawrth 4ydd Awst (slot 3.30-4.30). Nid oes cost am logi'r Babell ond bydd cost o £30 am ddefnyddio offer technegol ac ati.</p> <p>Gofynnwyd i EO gadarnhau efo Iolo ap Gwynn beth yn union fydd pwnc ei ddarlith.</p> <p>Gofyn i SS drafod hefo Maldwyn y posibilrwydd o baratoi posteri a flyers ar gyfer y ddarlith ac i EO a GR fynd â nhw i lawr i faes yr Eisteddfod.</p> <p>RR,EO a GR i ddsbarthu'r deunydd cyhoeddusrwydd ar y maes.</p>
4	<p><u>LLYFRYN MYNYDDA</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan EO ar y datblygiadau ynglŷn â chyhoeddi llyfr swmpus safonol yn y Gymraeg Yr amcan yw targedu'r cyhoeddiad ar gyfer marchnad Nadolig 2016 sy'n golygu y byddai yn cael ei argraffu o gwmpas Medi 2016. Byddai'n rhaid i gynnwys y llyfr fod yn barod felly erbyn Mai/Mehefi 2016 er mwyn cychwyn ar y broses o'i argraffu. Mae angen cael paneli o aelodau i arolygu'r broses o baratoi deunydd (ysgrifenedig a lluniau) ar gyfer y llyfryn</p> <p>Cytunwyd i symud ymlaen ar y llinellau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i symud ymlaen i gyhoeddi'r Llyfryn Mynydda ac yn fodlon gwneud cyfraniad o £2k tuag at y gost o'i gyhoeddi • Sefydlu Panel Golygyddol o dan arweiniad EO gyda'r aelodau canlynol yn gwasanaethu arno – RR/SS/EH/lag/GW • Sefydlu Panel Lluniau o dan arweiniad Aneurin Phillips • Dylid gwneud apel i aelodau'r Clwb i gyfrannu hanesion teithiau a lluniau ar gyfer y llyfryn. O safbwynt lluniau os bydd bylchau gellid ystyried comisiynu neu brynu lluniau.
5	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod eisoes wedi derbyn awgrymiadau ar gyfer rhaglen Awst – Tachwedd 2015. Bydd yn parhau hefyd efo'r drefn o gynnwys ambell i daith llai/taith beicio yn y rhaglen.</p>

	<p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofyn i DH os yn bosib trefnu penwythnos yn y de yn ystod mis Medi • Gofyn i MT drafod efo Arwel y posibilrwydd o greu cysylltiadau e-byst ymysg aelodau sydd â diddordeb mewn dringo i allu trefnu gweithgareddau ar fyr rybudd pan fydd tywydd yn caniatáu. • Gofyn i EO ac IaG ddiweddarau'r wybodaeth am ddringo ar wefan y Clwb
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT/DIWRNOD BLASU.</u></p> <p>Adroddwyd y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf y dylid trefnu diwrnod blasu er mwyn codi proffil y Clwb a denu aelodau newydd.</p> <p>Cytunwyd ar y trefniadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal y diwrnod blasu ar ddydd Sadwrn 20fed Mehefin yn ardal Ogwen/Glyderau • Gobeithir cynnal gweithgareddau cerdded, dringo a sgramblo hawdd yn ystod y diwrnod • Byddai RR yn chwilio am arweinyddion ar gyfer y gweithgareddau cerdded/sgramblo a MT ar gyfer y gweithgareddau dringo • Dylid ceisio cael cyhoeddusrwydd ar gyfer y diwrnod, byddai RR yn cysylltu hefo'r cylchgrawn Golwg a gofyn i Gerallt Pennant os yn bosib cael eitem ar y rhaglen Heno • Gofyn i IaG os yn bosib roi manylion am y diwrnod ar Facebook a Twitter
10	<p><u>OFFER</u></p> <p>Trafodwyd sefyllfa offer y clwb. Nododd MT er mwyn cydymffurfio â gofynion rheoli offer, y dylai cofnod gael ei gadw o holl offer y Clwb, pryd y'u prynwyd a pha ddefnydd wnaed ohonynt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd gofyn i MT drafod hyn efo Arwel sydd yn cadw rhan helaeth o offer dringo'r Clwb. • Cytunwyd gofyn i MT drefnu efo GR i archebu 8-10 helmedau ac ychydig o slings ar gyfer y diwrnod blasu • Gofyn i MT edrych i'r posibilrwydd o gael rhestr offer y Clwb ac archebu mwy o harnessi ac ati yn ôl yr angen. Nodwyd fod posibilrwydd i gael cymorth gan y CMP i archebu offer i glybiau.
11	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Er mwyn trafod perthynas y clwb efo 'r CMP, cytunwyd gwahodd Elfyn Jones o'r CMP i'r cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ym mis Medi.</p>
12	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Cytunwyd fod angen codi proffil y Bartneriaeth ymysg aelodau'r clwb yn enwedig y cyrsiau y maent yn eu cynnig i aelodau am brisiau rhesymol.</p>
13	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun 28ain Medi yng Nghapel Curig os yn bosib.</p>